Gwersylloedd

Cylchgronau

Eisteddfod

Chwaraeon

Aelwydydd

# Urdd Gobaith Cymru

## Adolygiad Blynyddol

## 2005 / 2006

urdd.org

## Gair gan y Llywydd, Gavin Ashcroft

**Dyw geiriau ddim yn cyffwrdd â'm balchder o gael fy ethol yn Llywydd yr Urdd 2005-2006. Feddyliais i erioed y byddai'r bachgen bach o Rydyfelin un dydd yn Llywydd ar y mudiad hwn!**

Mae eleni wedi bod yn agoriad llygad i mi. Fel eisteddfodwr brwd dros y blynyddoedd, mae'n hawdd maddau i ddyn am beidio â gweld y tu hwnt i'r maes a'r pafiliwn. Yn wir, cefais fy syfrdanu dros y flwyddyn gan yr holl waith neilltuol y mae'r mudiad arbennig yma'n ei gyflawni, boed yn ddyngarol neu'n wladgarol, a mawr yw fy mharch ato am hynny. Fel Llywydd, mae gen i lith o atgofion melys. Yn sicr, erys Eisteddfod Sir Ddinbych 2006 a'i leoliad godidog yn y co' ac yn y galon am byth.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn gyhoeddus i'r Urdd am y cyfle hwn, ac yn ogystal hoffwn ddiolch ar ran plant a phobl ifanc Cymru sydd yn elwa'n feunyddiol o ymroddiad diflino y mudiad a'i gyfeillion. I'r dyfodol!

## Swyddogion Urdd Gobaith Cymru 2006

Llywydd: **Gavin Ashcroft**

Is-lywyddion:
**Andrea Parry, Carol Davies**

Llywyddion Anrhydeddus:
**Prys Edwards, Wynne Melville Jones, Bob Roberts**

Is-lywyddion Anrhydeddus:
**Eurig Davies, Alun Edwards, Janet Evans**

Cadeirydd: **Rhiannon Lewis**

Is-gadeirydd: **Tudur Dylan Jones**

Trysorydd: **Rheon Tomos**

Ysgrifennydd: **Andrea Parry**

## Ystadegau Diddorol

- Prif fudiad ieuenctid Cymru
- Aelodaeth o 50,334 a chynnydd o 10% yn yr oedran 16-25 eleni
- 1 o bob 3 o holl siaradwyr Cymraeg rhwng 8-18 oed yn aelod
- 25% o holl blant 10 oed yng Nghymru yn aelodau
- Darparwr chwaraeon blaenllaw Cymru – 250,000 o sesiynau chwaraeon y flwyddyn a 60 dyfarnwr yn gweithio yn yr Ŵyl Rygbi Genedlaethol
- 94,000 o gylchgronau Cymraeg yn cael eu gwerthu'n flynyddol
- 180 o staff a throsiant ariannol o £6 miliwn
- 10,000 o wirfoddolwyr mewn 950 o ganghennau
- Dros 930,000 o ymweliadau â'n gwefan

dylunio elfen.co.uk

# ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r adolygiad hwn i'ch sylw. Drwy ein holl weithgareddau, mae ein nod o roi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd ac at bobl eraill y byd, yn ganolog.

Gwych yw gallu cofnodi llwyddiannau'r Urdd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys cynnal Eisteddfod ar safle godidog yn Sir Ddinbych, adeiladu cwrs rhaffau uchel Glan-llyn (mae'n dda…), cynyddu'r nifer o weithgareddau cymunedol, a pharhau'r traddodiad o roi cyfleoedd i'n haelodau i gael profiadau o waith dyngarol tramor gan gynnwys gwneud cysylltiadau newydd yn Rwmania.

Heb os, un o uchafbwyntiau'r teithio tramor y llynedd oedd ennill twrnament rygbi 7 bob ochr dan 19 yn Dubai – tipyn o gamp i'r tîm brwdfrydig, ac arwydd o'n datblygiad fel darparwr cyfleoedd a hyfforddiant chwaraeon. Mae ein datblygiad yn y maes chwaraeon, ochr yn ochr â'n gweithgaredd celfyddydol yn profi ein bod yn fudiad o bwys sy'n cyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru.

Wrth gyflwyno'r adolygiad, fy mraint yw diolch i'r rheiny trwy Gymru benbaladr, yn wirfoddolwyr ac yn aelodau o staff, sydd wedi sicrhau fod y gwaith a gyflawna'r Urdd yn gyffrous ac yn berthnasol i fywydau plant a phobl ifanc wrth iddynt fyw eu bywydau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

**Efa Gruffudd Jones**
Prif Weithredwr

**Urdd Gobaith Cymru**, Ffordd Llanbadarn,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 1EY

Ffôn: **01970 613100**
E-bost: **urdd@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

# ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'n anodd credu bod blwyddyn arall wedi hedfan heibio ers cyflwyno'r adolygiad blynyddol diwethaf. Arwydd o henaint (medde' nhw) yw hi pan rydych chi'n gweld amser yn mynd yn gynt na chynt! Mae'r Urdd, fel pob un ohonom, yn mynd yn hŷn, ond yn sicr nid yw'n mynd yn hen. Dengys yr adroddiad yma fod mudiad Urdd Gobaith Cymru mor ifanc a ffres ag erioed, ac yn denu mwyfwy o blant ac ieuenctid i wneud y gweithgareddau amrywiol. Yn sicr un o gyfrinachau mawr llwyddiant yr Urdd ar hyd y blynyddoedd yw gwrando ar yr aelodau a chydweithio â nhw er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r hyn sy'n berthnasol i'w bywyd. Braf yw clywed am yr adrannau a'r aelwydydd newydd, ac am y fforymau ieuenctid sy'n cyfarfod mewn nifer o ranbarthau, sydd nid yn unig yn bwysig o ran gweithgareddau'r mudiad ond o ran datblygiad yr aelodau a sicrhau arweinyddion y dyfodol.

A hithau erbyn hyn yn dymor yr Hydref, mae'n braf cael y cyfle i edrych yn ôl ar eisteddfod arbennig Sir Ddinbych a chofio am wres y tywydd a chynhesrwydd y croeso, y trefniadau gwych a safon anhygoel y cystadlu. Mae'r gweithgareddau chwaraeon a drefnir ar hyd ac ar led Cymru yn denu mwy o gystadleuwyr nag erioed a'r gwersylloedd yn dal i ddenu.

Eleni eto cynhaliwyd gweithgareddau dyngarol gan yr aelodau yn lleol ac ar y cyfandir ond yn sicr, un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i mi'n bersonol oedd cael bod yn bresennol yn y Senedd wrth i aelodau Urdd Gobaith Cymru gyflwyno'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da ar ran ieuenctid Cymru, nid yn unig i aelodau'r Cynulliad, ond i ieuenctid y byd.

Mae mudiad Urdd Gobaith Cymru yn bwysig iawn nid yn unig i'r dros 50,000 sy'n aelodau ohoni ond i Gymru gyfan. Mae'n fudiad sy'n gwneud gwahaniaeth, ac yn fudiad y dylid ei drysori. Nid mynd yn hen y mae'r mudiad hwn – ond dysgu o brofiad, datblygu ac aeddfedu. Dalied ati i wneud hynny.

**Rhiannon Lewis**
Cadeirydd

Rhif Elusen: 524481
Rhif Cwmni: 263310

# Gweithgareddau Hamdden, Addysgol a Chelfyddydol

- Darparwyd gwasanaeth i 50,334 o aelodau gan ein swyddogion datblygu, ein swyddogion datblygu cynorthwyol a'n swyddogion chwaraeon mewn dros 950 o adrannau.
- Cafwyd cynnydd yn ein darpariaeth i'r oedran 12 – 15 oed a sefydlwyd adrannau cymunedol newydd mewn deuddeg o ranbarthau.
- Profodd cynllun cyfnewid Bendigeidfran yn boblogaidd ymysg ein haelodau ac aelodau Ogras gyda dros gant o bobl ifanc yn manteisio ar hyfforddiant a chyfleoedd i gymdeithasu yng Nghymru ac yn Iwerddon.
- Cafwyd tair taith llwyddiannus gan Urddaholics i Wlad Pwyl a Rwmania i gefnogi a chynorthwyo plant o dan anfantais.
- O dan nawdd Plant Mewn Angen parhawyd i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu heithrio o ysgolion Gwynedd a Môn trwy gynnig rhaglen o weithgareddau awyr agored a chyfleoedd i ennill cymwysterau.
- Lluniwyd a chyflwynwyd y Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni gan aelodau o Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, a chawsant gyfle i'w chyflwyno i'r Prif Weinidog yn y Senedd.
- Bu dros gant o'n haelodau yn perfformio yng ngaleri'r Cynulliad ar ddiwrnod agoriadol y Senedd ym Mae Caerdydd ar ddydd Gŵyl Dewi.
- Bu pump o'n Urddaholics allan yn Aushwitz ar daith arbennig. Cawsant baratoi a pherfformio darn yng nghyngerdd fawr y Cofio a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru o flaen arweinwyr Prydain a thu hwnt ym mis Ionawr.
- Bu dros 1,000 o aelodau ar deithiau preswyl yng Nghymru a thramor yn ystod y flwyddyn.
- Llwyddodd 45 o Urddaholics i ddilyn cynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm gan gwblhau dros gan awr o waith gwirfoddol yn y gymuned.
- Cynhaliwyd dros 165 o weithgareddau hamdden i bobl ifanc yn ystod gwyliau ysgol.
- Gwelwyd cydweithio gyda nifer o gyrff eraill megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Mentrau Iaith, BBC Cymru ac S4C.

# CHWARAEON

- Cynhaliwyd cystadlaethau chwaraeon rhanbarthol a Gwyliau Chwaraeon yng Nghaerdydd, Aberystwyth, Bangor a Llanelli.
- Daeth 136 o dimoedd i gystadlu yn yr ŵyl Rygbi Uwchradd Genedlaethol yn Llanelli a 121 o dimoedd i gystadlu yn yr ŵyl Bêl-rwyd Genedlaethol yng Nghaerdydd.
- Llwyddodd tîm yr Urdd i ennill Cystadleuaeth Rygbi Rhyngwladol Ieuenctid saith bob ochr yr I.R.B. yn Nubai.
- Am y tro cyntaf cafodd Gala Nofio Genedlaethol yr Urdd ei chynnal yn y pwll Olympaidd yn Abertawe. Cafwyd 1,400 o gynulleidfa a 986 o gystadleuwyr.
- Am y tro cyntaf, cynhaliwyd cystadleuaeth Aquathlon Genedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth, gyda 400 o athletwyr yn cymryd rhan.
- Hyfforddwyd dros 100 o arweinyddion chwaraeon newydd yn ystod y flwyddyn.
- Enillodd y cynllun golff sy'n hyfforddi pobl ifanc yn ardal Llanelli, Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth i gymryd rhan mewn sesiynau golff yn ogystal â datblygu hyfforddwyr newydd, wobr arbennig The Critchley Award gan Sefydliad Golff Prydain am gyfraniad y mudiad i ddatblygu golff fel chwaraeon i blant a phobl ifanc.
- Cynhaliwyd chwech o Gyrsiau Chwaraeon yn y gwersylloedd.
- Mae 24 o glybiau newydd wedi cychwyn i roi hyfforddiant chwaraeon i wirfoddolwyr.
- Cynhaliwyd sesiwn arddangos a thrafodaeth gyda'r Arglwydd Sebastian Coe ynglŷn â rôl y mudiad yn y gweithgareddau a fydd yn arwain i fyny at, ac yn ystod gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012.

**Cysylltwch â**
**Dyfrig Morgan**
Cyfarwyddwr Talaith y De
Ffôn: **029 2063 5682**
E-bost: **Dyfrig@urdd.org**

**Dafydd Carrington**
Cyfarwyddwr Talaith y Canolbarth
Ffôn: **01686 614036**
E-bost: **Dafydd@urdd.org**

**Mari Pritchard**
Cyfarwyddwr Talaith y Gogledd
Ffôn: **01248 672106**
E-bost: **Mari@urdd.org**

Gwefan: **urdd.org**

# GWERSYLLOEDD

Gwersyll yr Urdd
**Llangrannog**

Canolfan yr Urdd
**Pentre Ifan**

Gwersyll yr Urdd
**Glan-llyn**

Gwersyll yr Urdd
**Caerdydd**

## GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG

- Mewn blwyddyn lwyddiannus arall mae 51,159 wedi aros yn y gwersyll am ddiwrnod.
- Cyrhaeddwyd safon Buddsoddwyr Mewn Pobl a Chynllun y Ddraig Werdd Lefel 2 unwaith eto.
- Mae'r gwersyll yn parhau i chwarae rhan bwysig yn economi'r ardal, gyda'r ganolfan yn cyfrannu bron i £2.5 miliwn i'r economi lleol ac yn cyflogi 94 o staff.
- Mae 30% o'r gwersyllwyr a gyflwynir i weithgaredd yma yn Llangrannog yn parhau â'r gweithgaredd hwnnw ar ôl dychwelyd adref.
- Gwneir defnydd helaeth o'r Ganolfan Hamdden gan grwpiau cymunedol.
- Yn y Ganolfan Treftadaeth ym mis Hydref 2005, trefnwyd arddangosfa boblogaidd o waith a bywyd T.Llew Jones, i ddathlu pen-blwydd yr awdur bytholwyrdd yn 90 oed.
- Edrychwn ymlaen i ddathlu pen-blwydd y gwersyll yn 75 oed y flwyddyn nesaf.

## CANOLFAN YR URDD PENTRE IFAN

- Mae nifer o briodasau wedi'u cynnal ym Mhentre Ifan yn ystod y flwyddyn.
- Mae nifer o fudiadau lleol yn defnyddio'r ganolfan fel man cyfarfod, a chaiff ddefnydd hefyd gan amrywiol fudiadau ieuenctid.
- Mae Pentre Ifan yn ganolfan ddelfrydol i grwpiau bach o bob math i fwynhau cyfnod mewn llecyn hudolus yn Sir Benfro.

**Cysylltwch â**
**Steffan Jenkins**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd
Llangrannog

Ffôn: **01239 654473**
E-bost: **Llangrannog@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org/llangrannog**

## GWERSYLL YR URDD GLAN-LLYN

* Bu'n flwyddyn brysur arall a'r flwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed o safbwynt incwm y gwersyll a gweddill i'r mudiad.
* Mae gweithgaredd newydd y sitons ar y llyn wedi bod yn llwyddiannus gyda'r gwersyllwyr.
* Mae glanfa newydd wedi hwyluso'r trefniadau i lawr ar Lyn Tegid ynghyd â chreu mynediad newydd a hwylus i'r llai abl. Cafwyd cyhoeddusrwydd da i'r gwersyll pan fu'n rhaid i'r lanfa newydd 'hwylio' i Lan-llyn, taith o dros bedair milltir yr holl ffordd o'r Bala ar y dŵr.
* Mae'r Cwrs Rhaffau Uchel wedi'i agor yn y goedwig ac yn hynod o boblogaidd gyda'r gwersyllwyr, arweinyddion a'r staff! Mae hefyd ar agor i'r cyhoedd.

**Cysylltwch ag**
**Aled Siôn**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Glan-llyn
Ffôn: **01678 541000**
E-bost: **Glan-llyn@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org/glan-llyn**

## GWERSYLL YR URDD CAERDYDD

* Mae dros 7,000 wedi aros yn y gwersyll dros y flwyddyn ddiwethaf, a dros 10,000 wedi gwneud gweithgareddau yn y gwersyll. Bu cynnydd o 40% yn y niferoedd a fu'n mynychu'r gwersyll yn chwe mis cyntaf 2006 i'w gymharu â chwe mis cyntaf 2005.
* Ymysg yr ymwelwyr di-rif sydd wedi mwynhau yn y gwersyll dros y flwyddyn diwethaf mae'r Arglwydd Sebastian Coe, Goldie Lookin' Chain, y Super Furry Animals, ymgeiswyr Ysgoloriaeth Bryn Terfel, ymwelwyr o Ffrainc, Iwerddon, yr Eidal, Rwsia, Ciwba, India, Yr Almaen, Gwlad Pwyl a Doctor Who a'r Cybermen!
* Mae'r gwersyll yn cynnal clybiau perfformio wythnosol i aelodau'r Urdd o bob oed ac mae'r clybiau wedi dechrau perfformio'n gyhoeddus. Ceir cyfle'n gyson i weld perfformwyr yr Urdd yn dangos eu doniau ar Lanfa Canolfan Mileniwm Cymru hefyd.
* Mae sefydlu'r gwersyll wedi rhoi'r cyfle i filoedd o bobl ifanc Cymru ymweld â thrysorau'r genedl fel Stadiwm y Mileniwm, y Senedd newydd, amgueddfeydd Sain Ffagan a'r Pwll Mawr a holl atyniadau de ddwyrain Cymru.

**Cysylltwch ag**
**Alun Owens**
Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Caerdydd
Ffôn: **029 2063 5678**
E-bost: **Caerdydd@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org/caerdydd**

# ADRAN YR EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU

- Cafwyd eisteddfod unigryw a llwyddiannus i Gymru gyfan yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn 2005, gan osod seiliau cadarn ar gyfer dychwelyd yno yn 2009.

- Eleni cafwyd eisteddfod benigamp yn Sir Ddinbych, ar faes Fferm Maes Llan, Ysgol Brynhyfryd a Whitegates, gyda Bryniau Clwyd a Moel Famau yn gefnlen odidog iddi.

- Yr oedd bwrlwm y cystadlu yn well nag erioed ac yn cael ei lwyfannu mewn pafiliwn ar ei newydd wedd. Roedd hi'n braf iawn dychwelyd i'n gwreiddiau ymhob ystyr, gan mai yn Sir Ddinbych y cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am y tro cyntaf saith deg saith o flynyddoedd yn ôl.

- Gyda'r nos, o nodyn cyntaf sioe Uwchradd Plas Du ar y nos Sadwrn hyd at ddiwedd y cystadlu wythnos yn ddiweddarach, cafwyd gwledd o berfformio a chystadlu gan blant a phobl ifanc Sir Ddinbych ynghyd â gweddill Cymru.

- Yr oedd cyffro arbennig ym mhob cornel o'r maes, gyda llu o ddigwyddiadau, gweithgareddau a pherfformiadau yn ychwanegu at yr awyrgylch hapus.

- Cystadlodd 40,000 o aelodau'r Urdd yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir, gyda 15,000 ohonynt yn cyrraedd y brifwyl.

- Heidiodd 100,000 o ymwelwyr o Gymru benbaladr a thu hwnt i fwynhau'r myrdd o atyniadau yn yr ŵyl.

- Adeiladwyd ar sail gadarn y llynedd trwy gynnal rhagor o ddosbarthiadau meistr ar gyfer yr wyth cystadleuydd ar gyfer Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru.

- Edrychwn ymlaen yn 2007 i deithio i Sir Gâr ac i faes delfrydol Cae Sioe'r Siroedd Unedig yn Nant y Ci ar gyrion tref Caerfyrddin. Bydd croeso twymgalon a gwledd yn eich aros.

**Cysylltwch â**
**Siân Eirian**
Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau
Ffôn: **01678 541012**
E-bost: **Eisteddfod@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org/eisteddfod**

06

# CYFATHREBU A CHYLCHGRONAU

- Ymaelododd 50,334 â'r Urdd eleni gyda 3,113 ohonynt yn Urddaholics.
- Roedd stondinau'r Urdd yn yr Eisteddfodau yn llawn asbri gyda dathliad pen-blwydd Mistar Urdd yn Eisteddfod Sir Ddinbych yn uchafbwynt lliwgar.
- Cafwyd pedwar diwrnod bywiog yn y Sioe Frenhinol gyda phresenoldeb y mudiad yn amlwg yng nghornel chwaraeon boblogaidd y Sioe.
- Ymwelodd dros 930,000 o bobl â safle gwe yr Urdd.
- Datblygwyd delwedd weledol y mudiad ymhellach gan gyflwyno baneri newydd, logos newydd i'r gwersylloedd, posteri chwaraeon newydd a siwt newydd i Mistar Urdd.
- Llwyddwyd i sicrhau sylw eang yn y wasg a'r cyfryngau Cymreig, gyda llwyddiant tîm rygbi'r Urdd yn Dubai yn gyfle i bwysleisio fod darpariaeth chwaraeon y mudiad yn mynd o nerth i nerth, a'r eisteddfod yn ennyn diddordeb helaeth fel arfer. Mae colofn yn rhoi sylw i weithgaredd amrywiol yr Urdd yn **Y Cymro** bob wythnos.
- Cyhoeddwyd llyfryn **Urdd Gobaith Cymru a'r Cwricwlwm Cenedlaethol** a'i ddosbarthu yn eang drwy'r mudiad ac i'r byd addysg.
- Cyhoeddwyd deg rhifyn yr un o **Cip**, **Bore Da** a **iaw!**, ac mae'r cylchgronau yn cael eu darllen gan 28,000 o blant a phobl ifanc ledled Cymru bob mis.
- Trefnwyd gweithdai e-bost gyda Mererid Hopwood, Bardd Plant Cymru, a chyhoeddwyd mai Gwyneth Glyn yw Bardd Pant Cymru 2006-2007.

**Cysylltwch â**
**Siân Eleri Davies**
Cyfarwyddwr Cyfathrebu
Ffôn: **01970 613118**
E-bost: **Sianeleri@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

## NAWDD

**Rydym yn ymdrechu i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd o bob math o ffynonellau. Heb y gefnogaeth hon ni fyddai modd i ni gynnig yr amrediad o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adolygiad hwn.**

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government **£575,600**

### Ffynonellau Ariannol

**Cynigwyd y grantiau canlynol:**

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cynulliad Cymru (grant ieuenctid) | **£70,275** |
| Cyngor Llyfrau Cymru | **£24,500** |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | **£36,412** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru (Eisteddfod 2005) | **£48,060** |
| Cyngor Sir a Dinas Caerdydd (Eisteddfod 2005) | **£210,000** |
| WEFO Interreg IIIA | **£52,482** |
| Awdurdod Parc Eryri | **£22,674** |

### Grantiau Llangrannog a Glan-llyn

| | |
|---|---|
| Cronfa Cyfleoedd Newydd | **£110,000** |
| Amcan 1 EAGGF | **£74,445** |
| Cronfa Treftadaeth y Loteri | **£43,160** |
| Awdurdod Datblygu Cymru | **£20,000** |

### Noddwyr

Diolchwn i'r noddwyr a gefnogodd Eisteddfod yr Urdd. Cafwyd £146,470 o nawdd tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2006 gan y canlynol:

Cyngor Sir Ddinbych, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Croeso Cymru, HSBC, First Hydro, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, British Nuclear, UCAC, Post Brenhinol, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Castle Cement, Asiantaeth yr Amgylchedd, Brodyr Jones, Co-operative, Trefor Jones (Rhuthun), Cwmni Ifor Williams, Tesco, N Power, Tegni

Noddodd Post Brenhinol gystadleuaeth ysgrifennu llythyr yn y cylchgrawn **Cip** eleni.

### Ymddiriedolaethau

| | |
|---|---|
| BBC Plant Mewn Angen | **(dros 3 blynedd) £78,813** |
| Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen | **£2,500** |

### Rhoddion Sylweddol

| | |
|---|---|
| Gan 'Ffrind o Lannau'r Merswy' | **£51,282** |
| Er cof William Edward Roberts, Ffestiniog | **£2,167** |

### Prif Gymynroddion

| | |
|---|---|
| Howel Vaughan Lewis (amcan) | **£660,000** |
| John Hughes, Llanuwchllyn | **£10,000** |
| Eifion Samuel George, Cross Hands (rhan) | **£6,270** |
| Kenneth Elias, Aberdar (rhan) | **£5,500** |
| Robert Owen Roberts, Llanelwedd | **£3,000** |
| Rita D Cooksley, Llandudno | **£2,000** |

### Awdurdodau Lleol

| | |
|---|---|
| Powys | **£7,516** |
| Ceredigion | **£6,000** |
| Caerfyrddin | **£15,000** |
| Penfro | **£7,500** |
| Rhondda Cynon Taf | **£5,000** |
| Bro Morgannwg | **£1,500** |
| Caerffili | **£10,000** |
| Môn | **£17,400** |
| Gwynedd | **£32,930** |
| Conwy | **£17,050** |
| Wrecsam | **£4,250** |
| | |
| Cyngor Sir Ddinbych – Eisteddfod 2006 | **£300,000** |
| Amrywiol – Eisteddfod 2006 | **£11,818** |

**Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd, sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gallwn eu cynnig yn cynnwys sylw yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.**

**Cysylltwch ag**
**Eurfyl Lewis**
Cyfarwyddwr Datblygu
Ffôn: **01970 613100**
E-bost: **Eurfyl@urdd.org**
Gwefan: **urdd.org**

## DATGANIAD YR ARCHWILWYR I YMDDIRIEDOLWYR URDD GOBAITH CYMRU

**Yr ydym wedi arholi'r crynodeb ariannol ar y dudalen yma.**

**Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilwyr**

Yr ydych chi fel ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r crynodeb ariannol. Yr ydym wedi cytuno i adrodd i chi ein barn ar gysondeb y crynodeb ariannol gyda'r cyfrifon statudol llawn, a arwyddwyd ar 6 Hydref 2006.

**Sail ein barn**

Yr ydym wedi gwneud y gwaith hynny yr ydym yn ei ystyried yn addas i sefydlu a ydy'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol pan baratowyd y rhain oddi wrthynt.

**Ein barn**

Yn ein barn mae'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2006.

**Patterson Jones & Evans**

Archwilwyr Cofrestredig, Llanbedr Pont Steffan

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r cyfrifon uchod yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 6 Hydref 2006 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon gan Patterson, Jones & Evans a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

**Wedi ei arwyddo ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y TRYSORYDD 2005/6

Mae'r cyfrifon eleni yn adlewyrchu cyfnod o gynnydd pellach o wariant (o £5.69m i £5.96m). Mae'r gwariant bellach yn adlewyrchu blwyddyn lawn o weithgareddau yng Ngwersyll Caerdydd, a theg yw nodi bod cynnydd sylweddol wedi bod yn incwm ein tair prif ganolfan breswyl yn ystod 2005/6, a bod y patrwm yma'n parhau yn 2006/7.

Rydym hefyd wedi buddsoddi dros £0.4m yn adnewyddu offer ac yn gwneud gwelliannau i'n hasedau. Byddwn yn rhoi sylw arbennig yn y misoedd sydd i ddod i sicrhau cronfa ddigonol wrth gefn i ddiogelu parhad safon ein hadnoddau. Llwyddodd eisteddfod arloesol 2005, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, i gwrdd â'i chostau, a gwerthfawrogwyd cyfraniad ariannol Cyngor Dinas Caerdydd wrth gyrraedd y canlyniad boddhaol yma.

Rydym yn hynod ddiolchgar fod ein partneriaid a'n ffrindiau wedi dangos eu caredigrwydd trwy gynyddu eu cyfraniadau a'u grantiau eleni, a oedd yn gymorth sylweddol mewn cyfnod o gynnydd mewn gwariant. O ran incwm a gwariant arferol, ac yn ôl y disgwyl, gwelwyd colled ariannol o ychydig dros £0.1m. Sefyllfa tra gwahanol a welir yn y cyfrifon, a hynny yn bennaf oherwydd tri ffactor eithriadol. Derbyniwyd swm sylweddol o arian wedi gwerthu ein cyn swyddfa yn Heol Conwy, Caerdydd (£0.95m), er bod canran o'r swm wedi ei glustnodi tuag at gost ein presenoldeb yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Yn ail, gwelwyd cynnydd anarferol mewn cymynroddion (£94K i £0.68m) oherwydd haelioni eithriadol y diweddar Howel V Lewis, ac yn olaf mae'r mudiad hefyd wedi elwa o gynnydd o £0.28m yng ngwerth ein buddsoddiadau. Fel mudiad rydym eisoes yn edrych yn fanwl ar sut i wneud y defnydd gorau posib o'r arian yma, ac mae llawer eisoes wedi eu clustnodi i sicrhau gwelliannau neu i leihau dyledion.

Roedd perfformiad ariannol 2005/6 yn rhan o gynllun tymor hir y mudiad i gynyddu incwm ac i gadw gwariant dan reolaeth. Er ein bod yn rhagweld mwy o gynnydd mewn gweithgareddau yn y dyfodol, rydym yn hyderus y byddwn yn gallu ateb y galw am dwf heb golli rheolaeth ar adnoddau ariannol y mudiad. Yn wir rydym yn rhagweld elw bychan yn 2006/7 a bydd hyn o gymorth wedi colledion blynyddoedd diweddar.

**Rheon Tomos**

Trysorydd

## CWMNI URDD GOBAITH CYMRU CYFYNGEDIG

### Mantolen 31 Mawrth 2006

| | 2006<br>£ | 2005<br>£ |
|---|---|---|
| **ASEDION SEFYDLOG** | | |
| Eiddo sylweddol | 7,352,043 | 9,536,954 |
| Buddsoddion | 1,493,507 | 1,217,007 |
| | **8,845,550** | **10,753,961** |
| **ASEDION CYFREDOL** | | |
| Stoc | 36,007 | 54,417 |
| Dyledwyr | 942,555 | 361,116 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 957,915 | 219,929 |
| | **1,936,477** | **635,462** |
| **CREDYDWYR** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,922,534) | (1,882,584) |
| Asedion/(Rhwymedigaethau) cyfredol net | 13,943 | (1,247,122) |
| Asedion llai rhwyme-digaethau cyfredol | 8,859,493 | 9,506,839 |
| **CREDYDWYR** | | |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | (1,493,857) | (1,714,334) |
| | **7,365,636** | **7,792,505** |
| **CRONFEYDD** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 2,210,458 | 4,661,952 |
| Cyfrif incwm a thraul | 4,233,296 | 2,493,961 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | 722,195 | 465,912 |
| Cronfeydd gwaddol | 199,687 | 170,680 |
| **CRONFEYDD** | **7,365,636** | **7,792,505** |

### INCWM

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Phentre Ifan | 1,717,497 |
| 2) | Gwersyll yr Urdd Glan-llyn | 989,879 |
| 3) | Gwersyll yr Urdd Caerdydd | 366,234 |
| 4) | Incwm o fuddsoddion | 46,920 |
| 5) | Eisteddfod 2005 (gan gynnwys grantiau) | 1,127,039 |
| 6) | Cylchgronau | 69,629 |
| 7) | Aelodaeth | 272,685 |
| 8) | Rhoddion a chymynroddion | 834,698 |
| 9) | Amrywiol | 190,129 |
| 10) | Nawdd | 19,100 |
| 11) | Grantiau (gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg) | 920,715 |
| 12) | Grantiau tuag at wariant cyfalaf | 248,278 |
| 13) | Gweddill ar werthu asedion | 948,772 |
| | **Cyfanswm Incwm am 2005/2006:** | **7,751,575** |

### GWARIANT

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Gwersyll yr Urdd Llangrannog a Phentre Ifan | 1,647,175 |
| 2) | Gwersyll yr Urdd Glan-llyn | 889,828 |
| 3) | Gwersyll yr Urdd Caerdydd | 531,300 |
| 4) | Costau datblygu'r maes a rhanbarth | 1,322,670 |
| 5) | Eisteddfod 2005 | 1,225,259 |
| 6) | Cylchgronau | 115,852 |
| 7) | Trefn lywodraethol | 92,819 |
| 8) | Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 44,824 |
| 9) | Dibrisiant | 97,638 |
| | **Cyfanswm Gwariant am 2005/2006** | **5,967,365** |


Dosrannwyd costau cefnogi dros y gweithgareddau elusennol ar sail y ganran incwm a dderbyniwyd

### Canlyniad y flwyddyn - Urdd Gobaith Cymru


Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £7,252,770 o gronfeydd rhydd, £489,649 o gronfeydd clwm a £9,156 o gronfeydd gwaddol. Mae'r mewn lif net am y flwyddyn ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd o £233,953 yn cynnwys mewn lif net o £1,734,199 ar gronfeydd rhydd, mewn lif net o £48,505 ar gronfeydd cyfyng a mewn lif net o £1,506 ar gronfeydd gwaddol.

| | 2006<br>£ | 2005<br>£ |
|---|---|---|
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 1,784,210 | (41,427) |
| Gweddill/(Colled) ar werthu buddsoddion | 5,136 | (3,118) |
| | **1,789,346** | **(44,545)** |
| Cynnydd ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 283,785 | 173,962 |
| Amhariad ar asedion sefydlog | (2,500,000) | |
| (Diffyg)/Cynnydd net mewn cronfeydd | (426,869) | 129,417 |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2005 | 7,792,505 | 7,663,088 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2006** | **7,365,636** | **7,792,505** |

### INCWM 2005-2006




### GWARIANT 2005-2006





**Cysylltwch â** **Mai Parry Roberts**, Cyfarwyddwr Busnes a Phersonél a Dirprwy Brif Weithredwr
Ffôn: **01678 541010** E-bost: **Mai@urdd.org**